

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

(Byddwchystal â nodi y caiff yr Adran hon ei chyhoeddi)

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau a gynigir, yn y polisi a'r cylch cyflenwi drwyddo draw?

1.1. Y cefndir i Fil y GIG (Indemniadau) Cymru i ddiwygio adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau) rhai cyrff iechyd) Deddf GIG (Cymru) 2006

- 1.1.1.** Mae sicrwydd esgeuluster clinigol yn un o amodau cofrestru yn y DU ar gyfer holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u rheoleiddio, ac yn achos ymarferwyr meddygol, mae'n un o amodau trwydded o dan adran 44C o Ddeddf Feddygol 1983. O dan y ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddal sicrwydd indemniad esgeulustod clinigol i dalu am gost hawliadau ac iawndal a ddyfernir i gleifion yn deillio o esgeulustod. Gall y sicrwydd fod yn bolisi yswiriant, yn drefniant indemniad, neu'n gyfuniad o'r ddau.
- 1.1.2.** Yn draddodiadol, mae Ymarferwyr Cyffredinol wedi prynu eu hindemniad eu hunain oddi wrth y sefydliadau amddiffyn meddygol (MDOs). Ar hyn o bryd mae tri o sefydliadau amddiffyn meddygol yn y DU'n darparu indemniad meddygol i ymarferwyr meddygol sy'n Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru mewn perthynas ag esgeuluster clinigol, materion rheoleiddio proffesiynol, a materion meddygol-gyfreithiol eraill.
- 1.1.3.** Roedd Ymarferwyr Cyffredinol wedi mynegi pryderon ynghylch costau cynyddol indemniad proffesiynol i Ymarferwyr Cyffredinol, gyda phremiymau indemniad yn cynyddu 7% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2013 a 2017. Ymysg y ffactorau sy'n arwain at godi costau indemniad mae poblogaeth sy'n heneiddio; arloesi technolegol mewn meddyginiaeth sy'n cadw pobl yn fyw am gyfnod hwy; cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â chyflyrau cymhleth. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod dirywiad yn ansawdd gofal clinigol wedi arwain at gynnydd mewn costau indemniad.
- 1.1.4.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru, fel rhan o'r newidiadau i'r contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn 2017/18, i ddatblygu ateb i'r mater hwn. Cafodd yr ymrwymiad hwn ei adolygu

yn dilyn y newid i'r Gyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol (PIDR) a'r effaith ar Ymarferwyr Cyffredinol a'r farchnad indemniad meddygol, a'r penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr o Ebrill 2019. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad na fydd Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr y caiff eu hindemniad esgeuluster clinigol ei gwmpasu gan y cynllun yn Lloegr a gefnogir gan y Wladwriaeth.

- 1.1.5.** Ym mis mai 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Cynllun Indemniad Proffesiynol a gefnogir gan y wladwriaeth i Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru ar gyfer gwaith contract gwasanaethau meddygol cyffredinol ar gyfer atebolrwyddau yr eir iddynt ar ôl Ebrill 2019 (Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol), a fyddai'n cyd-fynd, cyn belled â phosibl, â'r cynllun i'w gyflwyno yn Lloegr. Ym mis Awst 2018, gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymiad hefyd i ehangu'r cynllun indemniad a gefnogir gan y wladwriaeth i gwmpasu hawliadau esgeuluster clinigol yr aed iddynt cyn Ebrill 2019 (a elwir y Cynllun Atebolrwyddau Presennol) yn ddarostyngedig i gwblhau diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol a negodiadau boddhaol â'r MDOs.
- 1.1.6.** Cafodd Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS) ei gyflwyno'n llwyddiannus ar 1 Ebrill 2019 a hynny yn sgil Rheoliadau'r GIG (Cymru) (Cynllun Esgeuluster Clinigol) 2019. Mae'r FLS, a elwir yn Gynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI), yn cael ei weithredu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg. Mae'r GMPI yng Nghymru'n adlewyrchu'r cynllun FLS (a elwir y Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol) a gyflwynwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr hefyd ar 1 Ebrill 2019. Yn yr un modd, bydd cynllun/trefniadau ELS yn adlewyrchu'r ELS i'w gyflwyno yn Lloegr.
- 1.1.7.** Bydd alinio cynlluniau FLS ac ELS yng Nghymru â rhai Lloegr yn sicrhau nad yw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu ag Ymarferwyr Cyffredinol yn Lloegr ac na fydd unrhyw effaith andwyol ar recriwtio Ymarferwyr Cyffredinol a gweithgarwch trawsffiniol neu recriwtio yn sgil gwahanol gynlluniau yn gweithredu yn y ddwy wlad.

1.2. Y Diwygio

- 1.2.1.** Bydd y diwygiadau i adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau rhai o gyrff y gwasanaeth iechyd) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd

Gwladol (Cymru) 2006, sydd o natur gyfyngedig o ran polisi, yn fodd i greu Rheoliadau i sefydlu'r Cynllun ELS.

1.2.2. Effaith newidiadau i adran 30:

- i) Galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ELS a fydd yn gwneud darpariaeth i dalu'r atebolrwyddau hynny i Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol yr adroddwyd arnynt, neu'r adroddwyd arnynt ond nad aed iddynt cyn 1 Ebrill 2019. Bydd rheoliadau ELS, ynghyd â'r FLS GMPI, yn sail i i gynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol.
- ii) Diogelu at y dyfodol o ran effeithiau, siociau i'r farchnad a phwysau yn sgil digwyddiadau'r dyfodol yn ymwneud â sicrwydd esgeuluster clinigol.

1.3. Tymor hir

- 1.3.1.** Mae'r diwygio'n galluogi gwaith datblygu a chyflawni yn y dyfodol ym maes Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc yn achos rhai o gyrff y gwasanaeth iechyd. Mae hyn yn cynnwys y cynlluniau presennol a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer esgeuluster clinigol ar gyfer gofal sylfaenol, gofal y tu allan i oriau a gofal eilaidd.

1.4. Atal

- 1.4.1.** Bydd gwneud y diwygiad i adran 30 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiogelu cynlluniau esgeuluster clinigol presennol Ymarferwyr Cyffredinol at y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i atal y cynlluniau rhag methu â diwallu anghenion Ymarferwyr Cyffredinol wrth i'r cynlluniau esblygu.

1.5. Integreiddio

- 1.5.1.** Mae *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* wedi'i hystyried. Bydd y diwygiad i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn cefnogi'r seilwaith cyfreithiol y mae ei angen i ddarparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

1.6. Cydweithredu ac Ymwneud

- 1.6.1.** Mae'r diwygiadau i Ddeddf GIG (Cymru) 2006 a wneir gan y Bil yn hanfodol er mwyn i Weinidogion Cymru sefydlu'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol (yr ELS). Cafodd hyn ei nodi a'i gydnabod yn ystod trafodaethau ag adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU sy'n parhau. Mae'r berthynas weithio

ragweithiol â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac NHS Resolution wedi bod yn amhrisiadwy. Mae rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r angen am y Bil a fydd yn galluogi Rheoliadau ELS i gael eu cyflenwi.

1.7. Effaith

1.7.1. Bydd y Bil yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru sicrhau sefydlogrwydd tymor hir i Ymarferwyr Cyffredinol a defnyddwyr gwasanaethau GIG Cymru ym maes indemniad esgeuluster clinigol. Bydd galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu'r ELS, y diwygiadau a wneir gan y Bil yn cefnogi'r gwaith o barhau i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru. Byddant yn sicrhau ymhellach na fydd Ymarferwyr Cyffredinol o dan anfantais ym mater pwysig sicrwydd indemniad esgeuluster clinigol a'r gost o'i gymharu â Lloegr neu'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae'r diwygiadau felly'n gam cadarnhaol cyntaf a fydd yn sail i ddarparu ELS ar gyfer GIG Cymru.

1.7.2. Y dewis arall yw gwneud dim byd a chadw'r status quo. Mae hyn yn arwain at y gwrthwyneb i'r manteision a nodir ym mharagraff 1.7.1 uchod gydag Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais mewn perthynas ag indemniad esgeuluster clinigol a'r gost, gydag effaith o ganlyniad i hynny ar eu recriwtio a'u cadw, diffyg pwerau i greu ELS a diffyg gallu Gweinidogion Cymru i ddiogelu at y dyfodol o ran effeithiau, siociau i'r farchnad a phwysau yn sgil digwyddiadau'r dyfodol yn ymwneud â sicrwydd esgeuluster clinigol.

1.8. Costau ac Arbedion

1.8.1. Ni ellir gwneud yr holl wybodaeth ariannol gan gynnwys dadansoddiad o'r costau a'r opsiynau yn gyhoeddus oherwydd ei natur fasnachol sensitif a chyfrinachol iawn a'r ffaith ei bod wedi'i rhwymo gan gytundebau peidio â datgelu.

1.9. Mecanwaith

1.9.1. Yr unig fecanwaith a fydd yn arwain at gyflawni'r nod polisi i gyflwyno'r ELS yn unol â'r ymrwymiad Gweinidogol yw defnyddio Bil gan y Cynulliad i ddiwygio adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc rhai o gyfrff y Gwasanaeth Iechyd) o Ddeddf GIG Cymru 2006.

ADRAN 7. CASGLIAD

(Noder y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

7.1. Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

7.1.1. Mae'r diwygiadau i adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 o natur gyfyngedig o ran polisi. Mae'r diwygiadau'n galluogi Gweinidogion Cymru i gynhyrchu is-ddeddfwriaeth a fydd yn sefydlu Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer atebolrwyddau esgeuluster clinigol hanesyddol i Ymarferwyr Cyffredinol mewn perthynas â gwaith y GIG. O gofio natur gyfyngedig y Bil ychydig o gyfle yn unig sydd, os oes cyfle o gwbl, i ddylanwadu ar y canlyniad polisi trwy ymgynghori agored â'r cyhoedd.

7.2. Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

7.2.1. Rydym wedi ystyried nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig, Cymru gynaliadwy a Chymru gydnerth. Mae nodau ac amcanion y cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth, a fydd yn cynnig mwy o sicrwydd tymor hir ar gyfer darpariaeth barhaus gwasanaethau meddygol cyffredinol yng Nghymru, yn adlewyrchu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

7.2.2. Bydd y Bil yn diwygio adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc rhai o gyrff y Gwasanaeth Iechyd) Deddf GIG (Cymru) 2006

Effaith gadarnhaol hyn fydd:

- a) Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ELS a fydd yn gwneud darpariaeth i dalu'r atebolrwyddau hynny i Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol yr adroddwyd arnynt, neu'r adroddwyd arnynt ond nad aed iddynt cyn 1 Ebrill 2019. Bydd rheoliadau ELS, ynghyd â'r FLS GMPI, yn sail i i gynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol.
- b) Trwy ddiwygio adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 i hwyluso cyflwyno rheoliadau ELS, mae Llywodraeth Cymru'n diogelu i'r dyfodol o ran effeithiau, siociau i'r farchnad a phwysau yn sgil digwyddiadau yn y dyfodol yn ymwneud â sicrwydd esgeuluster clinigol. Bydd rheoliadau ELS, ynghyd â'r GMPI, yn sail i gynaliadwyedd tymor hir darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i recriwtio a chadw Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru am na fydd unrhyw Ymarferydd Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais mewn perthynas â'r ddarpariaeth a gefnogir gan y wladwriaeth o indemniad esgeuluster clinigol o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

7.2.3. Ni welwn unrhyw effaith negyddol o ganlyniad i'r Bil hwn.

